

NOSC 2026 Rhif 88

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Buttington Cross, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026

Gwnaed 7 Mai 2026

Yn dod i rym 11 Mai 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Buttington Cross, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mai 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 88

ROAD TRAFFIC

The A458 Trunk Road (Buttington Cross, Buttington, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026

Made 7 May 2026

Coming into force 11 May 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Buttington Cross, Buttington, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 11 May 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 09:00 o’r gloch ar 11 Mai 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw Cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gerbyttfordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r B4388 wrth Dŷ Tafarn y Green Dragon hyd at ei chyffordd â Chylchfan Buttington Cross yn Sir Powys.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Mai 2026

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 09:00 hours on 11 May 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the B4388 adjacent to the Green Dragon Public House to its junction with Buttington Cross Roundabout in the County of Powys.

Application

4. The prohibition in article 3 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

7 May 2026

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

